



Teitl y Swydd: Swyddog Gweinyddol Gwersyll yr Urdd Caerdydd

Math o gontract: Swydd barhaol, llawn amser (35 awr yr wythnos)

Graddfa: Graddfa 4: £16,793 (Pwynt 1) - £19,468 (Pwynt 6)

Lleoliad: Gwersyll yr Urdd Caerdydd

Gwersyll 4* a Chanolfan Cynadleddau o dan do adeilad unigryw Canolfan Mileniwm Cymru yw Gwersyll yr Urdd Caerdydd. Rydym yn croesawu dros 12,000 o ymwelwyr y flwyddyn ar ymweliadau preswyl o bob cwr o Gymru a thros y byd. Mae gennym berthynas dda gyda holl gyflenwyr gweithgareddau y Bae a'r Ddinas a lleolir swyddfeydd adrannau eraill o'r Mudiad yn y Gwersyll yn ogystal. Bydd y Swyddog Gweinyddol yn cynnig gwasanaeth cyflawn a thrylwyr i'r Gwersyll ac yn cyfrannu at rediad y Gwersyll a'r Swyddfa yn gyffredinol.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Tim Edwards, Cyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd Caerdydd ar 029 2063 5672 neu tim@urdd.org

Anfonwch Ffurflen Gais yr Urdd ar e-bost at swyddi@urdd.org

Dyddiad Cau – 09:00 ar 8 Rhagfyr 2017

Dyddiad Cyfweld – 12 Rhagfyr 2017

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y swydd:	Swyddog Gweinyddol, Gwersyll yr Urdd Caerdydd	Lleoliad:	Gwersyll yr Urdd Caerdydd
Adran:	Gwersyll yr Urdd Caerdydd	Rheolaeth Llinell:	Dim
Yn adrodd i :	Cyfarwyddwr y Gwersyll	Graddfa:	Graddfa 4 £16,793 - £19,468

Prif bwrpas y swydd:

- Cyfle i fod yn rhan o dîm deinamig Gwersyll mwyaf newydd Urdd Gobaith Cymru a leolir ym mwrlwm Bae Caerdydd
- Cydweithio gyda'r tîm rheoli i sicrhau rhediad llyfn y Gwersyll
- Cyfrifoldeb am rediad ac ansawdd prif Dderbynfa'r Gwersyll gan ymgymryd â thasgau gweinyddol ac ymarferol i ddarparu gwasanaeth llyfn ac effeithlon i'n holl gwsmeriaid ac adrannau eraill y Mudiad
- Hyrwyddo cynnyrch Gwersyll yr Urdd Caerdydd i gwsmeriaid cyfredol a newydd
- Cyfrifoldeb am rediad y Gwersyll tra ar ddyletswydd

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

- Sicrhau croeso addas i holl ymwelwyr y Gwersyll a'r Swyddfa
- Dyletswyddau gweinyddol cyffredinol gan gynnwys monitro lefelau stoc offer swyddfa a deunydd marchnata y Gwersyll a'r atyniadau lleol ynghyd a chyfrifoldeb am holl systemau gweinyddol y swyddfa gyfan
- Ymdrin ag ymholiadau cyffredinol a phrosesu archebion penodol
- Cyfathrebu a threfnu anghenion cwsmeriaid cynadleddau a chyfarfod
- Ymchwilio i farchnadoedd newydd a chynigion addas er mwyn ehangu ystod cwsmeriaid y Gwersyll
- Marchnata cyrsiau'r Gwersyll a chynyddu nifer y gwersyllwyr ar gynigion megis Blas y Bae, Gŵyl y Gaeaf a Gŵyl Hwyl
- Cyfrifoldeb am rediad y Gwersyll tra ar ddyletswydd gan gynnwys cyfrifoldeb am staff achlysurol, megis Gwyliwr Nos, a chyflenwyr megis staff y gegin. Bydd hwn yn cynnwys cyfnod o fod ar alwad dros nos i ymateb yn brydlon yn ôl yr angen.
- Ymgymryd â dyletswyddau priodol eraill sy'n cyfrannu at rediad esmwyth y Gwersyll ac adrannau eraill y Mudiad.

Manyldeb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

Hanfodol

- i. Y gallu i gyfathrebu'n ddwyieithog yn ysgrifenedig ac ar lafar (Cymraeg a Saesneg)
- ii. Sgiliau cyfrifiadurol da gan gynnwys profiad o raglenni Office e.e. Word, Excel a.y.b.
- iii. Profiad a diddordeb mewn gwaith gweinyddol
- iv. Y gallu i flaenoriaethu a threfnu gwaith yn effeithiol
- v. Unigolyn egniol, brwdfrydig a threfnus
- vi. Parodrwydd i weithio yn unigol ac fel rhan o dîm
- vii. Y gallu i ddelio gyda materion cyfrinachol
- viii. Ymwybyddiaeth ac agwedd gyfrifol tuag at lechyd a Diogelwch
- ix. Agwedd goresawgar a hynaws

Dymunol

- x. Profiad o weithio mewn awyrgylch Gwersyll
- xi. Profiad o raglennu bâsdata
- xii. Cymwysterau cyfrifiadurol perthnasol
- xiii. Cymhwyster uwch perthnasol
- xiv. Profiad a'r gallu i weithio gyda phlant a phobl ifanc
- xv. Cymhwyster Cymorth Cyntaf
- xvi. Gwybodus am Wersyll yr Urdd Caerdydd a gwaith yr Urdd

Nodiadau i ymgeiswyr:

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:

Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd:

Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad:

Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Tachwedd 2017 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

CRYNODEB O'R TELERAU AC AMODAU (ceir manylion lawn yn Llawlyfr Staff)

Teitl y swydd:	Swyddog Gweinyddol, Gwersyll yr Urdd Caerdydd
Yn atebol i:	Cyfarwyddwr y Gwersyll
Cyflog:	Graddfa 4 Strwythur Cyflogau'r Urdd sef £16793 - £19468. Penodir ar bwynt 1 oni bai fod profiad/cymwysterau arbennig yn denu un pwynt ychwanegol.
Cytundeb:	Parhaol
Oriau gwaith:	35 awr yr wythnos. Oherwydd natur y swydd bydd yn ofynnol i'r swyddog weithio oddi allan i oriau safonol swyddfa. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn hyblyg yn y cyswllt hwn fel rhan o rota cyfnodau dyletswydd.
Lleoliad:	Gwersyll yr Urdd Caerdydd
Gwyliau blynyddol:	Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr y Gwersyll. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth.
Cyfnod prawf:	Bydd cyfnod prawf o 6 mis
Pensiwn:	Bydd cyfle i ymuno â phensiwn mewnol yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'.
Gwiriad GDG:	Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)
Archwiliad meddygol:	Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol.